



Y System Mesur Iechyd a Diogelwch ar gyfer Tai (HHSRS)

Daeth Deddf Tai 2004 i rym ar y 6^{ed} o Ebrill 2006 ac ynghyd â'r ddeddf fe gyflwynwyd ffordd newydd o asesu eiddo, a elwir yn System Mesur Iechyd a Diogelwch ar gyfer Tai (HHSRS), sy'n disodli'r hen 'safon ffitrwydd' yn unol â Deddf Tai 1985.

Mae'r HHSRS yn anelu at ddarparu dull sy'n galluogi risgiau yn deillio o beryglon i iechyd a diogelwch eiddo i gael eu dileu neu eu lleihau. Yr egwyddor tu ôl i'r system yw y dylai eiddo, unrhyw dai mas perthynol a mannau amwynder awyr agored ddarparu amgylchedd diogel ac iach ar gyfer y deiliaid ac unrhyw ymwelwyr i'r eiddo. Dylai'r eiddo fod yn rhydd o beryglon neu, lle na ellir eu hosgoi, fe ddylid eu gwneud nhw mor ddiogel ag sy'n rhesymol o ymarferol. Mae'r HHSRS yn gymwys i eiddo sengl a Thai Amlfeddiannaeth.

Mae'r HHSRS yn asesu 29 o gategoriâu o beryglon tai, gan gynnwys y rhai hynny nad oedd yr hen 'safon ffitrwydd' tai yn eu cynnwys neu, heb eu cynnwys yn ddiogel.

Ffisiolegol	Haint
1. Tyfiant Lleithder a Llwydni	15. Hylendid yn y Cartref ayb.
2. Oerni Eithafol	16. Diogelwch Bwyd
3. Gwres Eithafol	17. Hylendid Personol
4. Asbestos (a MMF)	18. Bioladdwyr Cyflenwad Dŵr
5. Carbon Monocsid ayb.	
6. Plwm	Diogelwch
7. Ymbelydredd	
8. Nwy Tanwydd Heb Ei Losgi	19. Syrthio yn y bath ayb.
9. Cyfansoddion Organig Anweddol	20. Syrthio ar dir gwastad ayb.
	21. Syrthio ar risiau neu stepiau
	22. Syrthio rhwng lefelau
	23. Peryglon Trydanol
	24. Tân
	25. Arwynebau Poeth
	26. Gwrthdrawiad / Trapio
	27. Ffrwydradau
	28. Lleoliad a Gallu Gweithredu Amwynderau
	29. Strwythur yn Dymchwel
Seicolegol	
10. Gorlenwi a Lle	
11. Mynediad gan Dresbaswyr	
12. Golau	
13. Sŵn	

Mae'r eiddo yn cael ei archwilio ac mae unrhyw ddiffygion a diffygiadau sy'n achosi perygl yn cael eu nodi. Yna, mae sgôr ar gyfer pob perygl yn cael ei gyfrif. Mae'r sgôr yn dibynnu pa mor ddifrifol mae'r perygl a'i botensial i achosi anaf i berson sydd fwyaf agored i'r perygl hwnnw. Er enghraifft, mae grisiau'n peri mwy o risg i'r henoed, felly, wrth asesu perygl yn ymwneud â'r grisiau, ystyrir bod yr henoed yn grŵp agored i niwed. Yn yr un modd, mae'r henoed a phlant bach mewn mwy o berygl o oerni, felly, maent yn grŵp agored i niwed o ran y perygl o oerni eithafol. Y mwyaf y tebygrwydd bydd niwed yn cael ei achosi neu pa fwyaf difrifol yw'r canlyniad, yna'r uchaf fydd sgôr y perygl.

Rhennir y sgoriau i 10 band perygl, A i J, Band A yw'r mwyaf difrifol a Band J yw'r lleiaf difrifol. Mae peryglon sy'n perthyn i Fandiau A i C yn cael eu hystyried yn beryglon 'Categori 1', ac mae gan y Cyngor ddyletswydd statudol i gymryd camau gorfodi i fynd i'r afael â'r peryglon yma. Mae peryglon ym Mandiau D i F yn beryglon 'Categori 2', ac mae gan y Cyngor yr awdurdod i gymryd camau gorfodi i fynd i'r afael â'r perygl, os ystyrir hynny'n briodol.

Mae'r penderfyniad pa fath o gamau gellir eu cymryd yn seiliedig ar sawl ffactor, difrifoldeb y sgôr perygl, p'un ai bod gan y Cyngor ddyletswydd neu dim ond awdurdod i weithredu a phenderfyniad ynglŷn â'r modd gorau o fynd i'r afael â'r perygl.

Mae'r camau gweithredu sy'n agored i'r Cyngor fel a ganlyn:

1. **Hysbysiad Gwella** i gwblhau gwaith adfer i gael gwared ar, neu leihau, peryglon Categori 1 neu 2 mewn eiddo oddi fewn i gyfnod penodol o amser.
2. **Gorchymyn Gwahardd** i wahardd defnydd o'r eiddo, neu ran ohono, lle mae peryglon Categori 1 a 2 yn bodoli; hefyd, gellir ei ddefnyddio i wahardd defnydd o'r eiddo er dibenion penodol neu ar gyfer grwpiau penodol o bobl.
3. **Hysbysiad Ymwybyddiaeth o Berygl** ar gyfer peryglon Categori 1 a 2 anghysbell a mân, lle bo camau adfer yn ddymunol.
4. **Gorchymyn Dymchwel** i fynd i'r afael ag eiddo lle mae peryglon Categori 1 a 2 yn bresennol ac ystyrir mai dymchwel yw'r cam gweithredu mwyaf boddhaol.
5. **Camau Adfer Brys** i gymryd camau i gael gwared ar beryglon Categori 1 sy'n cyflwyno risg buan o niwed difrifol i'r deiliaid neu rywun arall. Gall y Cyngor weithredu ar unrhyw adeg, gyda Hysbysiad yn cael ei gyflwyno o fewn 7 diwrnod.
6. **Gorchymyn Gwahardd Brys** i wahardd defnydd o'r eiddo, neu ran ohono, ar unwaith, lle mae perygl Categori 1 yn cyflwyno risg buan o niwed difrifol i'r deiliaid neu rywun arall.
7. **Datganiad Ardal Glirio** i fynd i'r afael ag eiddo lle mae peryglon Categori 1 a 2 yn bresennol ac ystyrir mai clirio yw'r cam gweithredu mwyaf boddhaol.

Gall y Cyngor weithredu yn ddiodyn ac erlyn am ddiffyg cydymffurfio â Hysbysiadau a Gorchymynion. Yn ogystal, gall godi tâl ac adfer costau sy'n gysylltiedig â chymryd camau gorfodi. Erbyn hyn, mae apeliadau yn erbyn Hysbysiadau a Gorchymynion yn cael eu gwneud trwy wneud cais i'r Tribiwnlys Eiddo Preswyl.